**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD FEL CYFARFOD HYBRID – ZOOM DDYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir R G Thomas, B Baynham, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, H Hulme, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, J Wilkinson, A Williams, D H Williams, J M Williams a S L Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir L Brighouse, A Cartwright, G Pugh and J Pugh.

## 2. COFNODION

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cafwyd saib i gofio Mr Gwyn Gwilym, y cyn Gynghorydd dros Abercraf, a fu farw'n ddiweddar.

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion ei ymrwymiadau gan gynnwys gosod torch ar ran y Cyngor ar Sul y Cofio a chynnal derbyniad yn y Ffair Aeaf ar Faes Sioe Frenhinol Cymru.

## 5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Nododd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ymgynghori ar y Cynllun Corfforaethol drafft ar hyn o bryd ac anogodd ei gyd-gynghorwyr i gymryd rhan ac i annog eraill i wneud hynny. Gofynnodd hefyd i gydweithwyr roi cyhoeddusrwydd i dudalen we'r Cyngor yn cyfeirio'r cyhoedd at y cymorth sydd ar gael i helpu gyda'r argyfwng costau byw a lleoliad tua 36 o fannau cynnes yn y sir.

Dywedodd fod £27 miliwn o gyllid ar gyfer Powys o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gadarnhau, er bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff a oedd wedi ymateb i lifogydd yn Ystradgynlais. Nododd fod yr academi iechyd a gofal newydd wedi agor ym Mronllys ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol a bod Cyfleuster Crynhoi Gwastraff Gogledd Powys ym Mharc Busnes Aber-miwl wedi cael trwydded i weithredu gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

| 6. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Adroddodd y Prif Weithredwr am y camau oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i gostau cynnal uwch y Cyngor o ganlyniad i chwyddiant. Yn y tymor hwy byddai angen i'r Cyngor ailfeddwl sut roedd gwasanaethau'n cael eu darparu. Roedd cydweithio agosach yn cael ei archwilio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac roedd trafodaethau’n cael eu cynnal gyda Freedom Leisure ynghylch mesurau brys i arbed costau.

Dywedodd y byddai’r Cyngor yn hysbysebu’n fuan am swyddi Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant. Roedd recriwtio yn gyffredinol yn profi'n anodd ac roedd camau wedi'u cymryd i symleiddio'r broses recriwtio ar gyfer staff rheng flaen.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn gweithio’n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar achosion Strep. A a oedd ar hyn o bryd ar lefel uwch na’r cyffredin.

Nododd gyda siom y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyfrifiad, yn enwedig yn yr ystod oedran 3 – 15. Roedd y Cabinet yn ddiweddar wedi cryfhau’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mro Hyddgen ac Ysgol y Cribarth, a byddai’n cymryd camau i gynyddu'r ddarpariaeth ymhellach.

| 7. | TROSGLWYDDO INCWM |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor drosglwyddiadau yn y gyllideb Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu (HTR) yn ymwneud ag arbedion nas cyflawnwyd a fyddai'n cael eu disodli gan gynnydd mewn incwm. Addawodd Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a’r Amgylchedd y byddai’n rhoi ymateb i’r Cynghorydd Sir G E Jones i'w gwestiwn ynghylch faint o'r arbedion nas cyflawnwyd a fyddai'n cael eu cyflawni yn 2023/24.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Thomas ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Richard Church ac o 60 pleidlais i 1 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r trosglwyddiadau a nodwyd ym mharagraff 2.3.1 yr adroddiad.**

| 8. | CRYFACH, TECACH, GWYRDDACH |
|---|---|

Cafwyd cyflwyniad ar y Cynllun Corfforaethol gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Bowys Decach a'r Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig: Cryfach, Tecach, Gwyrddach. Eglurwyd mai gweledigaeth y Cabinet oedd creu Powys Gryfach, Tecach a Gwyrddach gan ddatblygu ar addewidion a wnaed gan eu pleidiau yn ystod yr etholiad fel a ganlyn:

**Cryfach -** Byddwn yn dod yn sir sy'n llwyddo gyda'n gilydd, gyda chymunedau a phobl sydd wedi'u cysylltu'n dda yn gymdeithasol, ac sy'n wydn yn bersonol ac yn economaidd.

**Tecach** - Byddwn yn gyngor agored sy'n cael ei gynnal yn dda lle mae lleisiau pobl yn cael eu clywed ac yn helpu i lunio ein gwaith a'n blaenoriaethau, gyda mynediad tecach, mwy cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd. Byddwn yn gweithio i ymdrin â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant pobl.

**Gwyrddach** - Rydym am sicrhau dyfodol gwyrddach i Bowys, lle mae ein llesiant yn gysylltiedig â lles byd natur, ac mae ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

Amlinellodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Bowys Decach y broses ymgynghori ac anogodd yr holl aelodau i gymryd rhan.

Heriwyd y Cabinet ar ei ymrwymiad i'r Gymraeg a chadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cabinet wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gan nodi ei fod newydd wneud penderfyniad i gyflwyno ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Cribarth o fis Medi 2023. Cadarnhawyd y byddai targedau mesuradwy yn cael eu cynnwys yn y cynllun drafft. Cynigiodd yr Aelod Cabinet sicrhau bod copïau pdf o'r ddogfen ymgynghori ar gael i'r aelodau hynny nad ydynt yn defnyddio cyfryngau digidol. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan aelod ynghylch gwella hygyrchedd i wasanaethau pan oedd cynghorwyr a'r cyhoedd yn dweud eu bod yn cael anhawster wrth gysylltu â staff, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig ei fod yn cydnabod bod angen newid a bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn. Cadarnhawyd hefyd bod y cyngor yn gweithio gyda phartneriaid eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghorau Tref a Chymuned i gynyddu lefelau ymateb. Roedd gweithdy wedi'i drefnu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y Cynllun Corfforaethol.

| 9. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

9.1. Penodi Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Amgueddfa Powysland

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Heulwen Hulme ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Benjamin Breeze, y Cynghorydd Sir Graham Breeze, y Cynghorydd Sir Amanda Jenner a Mrs Kath Roberts-Jones i Ymddiriedolaeth Amgueddfa Powysland.**

Ymddiriedolaeth Neuadd y Farchnad a Marchnad Da Byw Rhaeadr Gwy

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Angela Davies i Ymddiriedolaeth Neuadd y Farchnad a Marchnad Da Byw Rhaeadr Gwy.**

| 10. | CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN |
|---|---|

Cafwyd cyflwyniad ar waith y gwasanaeth gan Roger Thomas y Prif Swyddog Tân a Sarah Mansbridge, Trysorydd Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac fe wnaeth y ddau ateb cwestiynau gan yr Aelodau.

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG - YMRWYMO I WEINI CYNNYRCH CIG A LLAETH O ANSAWDD DA |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r cynnig a ganlyn a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Les George:

"Ar 14 Rhagfyr 2021, pasiwyd cynnig mewn cyfarfod llawn o'r cyngor gan gynghrair y Democratiaid Rhyddfrydol, Llafur a'r Blaid Werdd sy'n rheoli Cyngor Sir Swydd Rhydychen, yn gwahardd cig a chynnyrch llaeth rhag cael eu gweini mewn digwyddiadau swyddogol. Trosglwyddwyd y canlyniad hwn i'w Cabinet am benderfyniad terfynol, a gymeradwywyd wedi hynny ar 15 Mawrth 2022.

Denodd y penderfyniad hwn feirniadaeth gan ffermwyr cig a llaeth ledled y DU, ac enwogion amrywiol, newyddiadurwyr, Aelodau Seneddol a'r cyhoedd. Roedd y cynnig yn cynnwys honiadau amheus fod cynhyrchu cig a llaeth yn fyd-eang yn "cyfrannu'n sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr a datgoedwigo" a bod lleihau'r defnydd o'r bwydydd hyn yn "rhan allweddol o ymdrin â newid hinsawdd". Dyfynnwyd un ffermwr o Swydd Rydychen a oedd wedi'i arswydo gan y penderfyniad ac a ddywedodd – "Maen nhw wedi cymryd y cyngor o wneud gostyngiad ac wedi mynd am 100% o symudiad, sy'n ymddangos i mi fel rhywun yn pedlera agenda wahanol". Aeth ymlaen i ddweud "Mae'r holl ddadl am effaith amgylcheddol ffermio da byw yn cael ei herwgipio gan y ddadl am garbon ac mae'n anwybyddu unrhyw un o fanteision cig coch mewn cyfran synhwyrol ac o ansawdd gweddus yn y diet. Mae cig o dda byw sy'n cael eu bwydo ar laswellt sy'n cael eu magu yn y DU yn cael effaith amgylcheddol llawer is na chig sy'n cael ei ffermio'n ddwys o system porthiant soia ac india-corn yn Ne America." Ffynhonnell newyddion; https://www.fwi.co.uk/news/environment/fury-after-oxfordshire-council-moves-to-ban-meat-and-dairy

Ers gwneud y penderfyniad hwn, bu pryder pellach ymhlith ffermwyr ledled gweddill y wlad, yn enwedig mewn siroedd lle mae cynghorwyr Llafur, Democratiaid Rhyddfrydol neu'r Blaid Werdd yn rheoli cynghorau yn weinyddol. Y pryder yw y gallai awdurdodau yn y siroedd hynny wneud yr un peth a chyflwyno gwaharddiadau tebyg, a fydd yn dangos diffyg cefnogaeth i ffermwyr, yn niweidio busnesau cig a llaeth lleol, yn anfon y neges anghywir i'r cyhoedd ac yn niweidio enw da ein sector amaeth.

Yn dilyn trafodaethau gyda llawer o ffermwyr, busnesau, ac aelodau'r cyhoedd, mae cryn bryder gan fod Cyngor Sir Powys o dan reolaeth Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, efallai y bydd gwaharddiad cig a llaeth yn cael ei gyflwyno yma ym Mhowys hefyd.

Mae'r cyngor hwn felly'n galw ar weinyddiaeth Llafur/Dem Rhydd Cyngor Sir Powys i:

Ymrwymo i weini cig a chynnyrch llaeth o ansawdd da (a ddarperir yn lleol lle bo modd) ym mhob cyfarfod a digwyddiad swyddogol lle mae bwyd i'w weini ac ym mhob adeilad sy'n cael ei gynnal gan y cyngor lle mae bwyd yn cael ei weini, i gynnwys holl ysgolion a cholegau Powys lle mae bwyd yn cael ei weini, am weddill y tymor gweinyddu hwn.

Ymrwymo i weini bwyd llysieuol a fegan fel opsiynau yn unrhyw un o'r lleoliadau a'r digwyddiadau uchod, am weddill y tymor gweinyddu hwn."

Eglurodd y Cynghorydd McIntosh ei fod yn cyflwyno'r cynnig gan fod ffermwyr a chynhyrchwyr wedi cysylltu ag ef yn dilyn penderfyniad gan Gyngor Sir Rhydychen i wahardd cig a chynnyrch llaeth rhag cael eu gweini mewn digwyddiadau swyddogol. Eglurodd y Cynghorydd Sir Jake Berriman, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am arlwyo a phrydau ysgol, nad oedd wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol i weini cig a chynnyrch fegan o safon, ac o ffynonellau lleol. Cynigiodd welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Angela Davies

"Gofyn i'r Cabinet: Ymrwymo i barhau i weini prydau maethlon iach sy'n cydbwyso maint y carbohydradau, cig o ansawdd da a chynhyrchion protein nad ydynt yn gig, ffrwythau, llysiau, diodydd, a chynhyrchion llaeth, a gynhyrchir ac a ddarperir trwy gadwyni cyflenwi lleol lle bo modd."

Pasiwyd y gwelliant o 39 pleidlais i 17 gyda 3 yn ymatal ac felly daeth yn brif gynnig. Rhoddwyd y prif gynnig i bleidlais ac o 53 pleidlais i 3 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Cabinet ymrwymo i barhau i weini prydau maethlon iach sy'n cydbwyso maint y carbohydradau, cig o ansawdd da a chynhyrchion protein nad ydynt yn gig, ffrwythau, llysiau, diodydd, a chynhyrchion llaeth, a gynhyrchir ac a ddarperir trwy gadwyni cyflenwi lleol lle bo modd.**

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG - TEGWCH O RAN ADNODDAU YNNI A DŴR POWYS |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Geoff Morgan

"Yn sgil COP 27 yn yr Aifft, a datganiad Powys o argyfyngau hinsawdd a natur, mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraethau'r DU a Chymru i roi'r fframweithiau deddfwriaethol a'r darpariaethau angenrheidiol ar waith i alluogi pobl Powys i gadw rhywfaint o'r budd ariannol sy'n deillio o'r adnoddau dŵr ac ynni a gipiwyd ac a gynhyrchwyd ym Mhowys i'w hallforio a'u defnyddio mewn mannau eraill.

Yn benodol, mae'r Cyngor hwn yn gofyn am y gallu i godi ardoll ar gwmnïau cynhyrchu/cyflenwi dŵr ac ynni ar ddŵr pibell ac ynni y bwriedir ei allforio, ac nid er budd uniongyrchol neu ddefnydd gan bobl Powys. Ni ddylai'r gyfradd enillion ar gyfer rhannu'r adnoddau hyn fod yn llai na £1 y mega litr ac £1 y megawat yr awr i ddechrau, wedi'i godi gan y gyfradd flynyddol ar gyfer chwyddiant (RPI). Yn gyfnewid am hyn, mae'r Cyngor hwn yn addo y bydd yr arian a godir yn cael ei wario gan Gyngor Powys i ymdrin â'r argyfwng sy'n ein hwynebu gyda'n gilydd yn sgil cynhesu byd-eang, a datblygu gwytnwch i'w wrthsefyll."

Nododd cynigydd y cynnig fod Powys yn allforiwr net sylweddol o ynni adnewyddadwy a dŵr. Nod y cynnig oedd i bobl ym Mhowys gadw rhywfaint o fanteision ariannol yr ynni a'r dŵr sy'n cael eu hallforio i'w defnyddio mewn mannau eraill. Mynegodd rhai Aelodau bryder y byddai'r tâl hwn yn cael ei ychwanegu at filiau defnyddwyr. Roedd eraill yn pryderu y gallai roi cynlluniau ffermydd gwynt sydd eisoes yn talu buddion cymunedol mewn perygl.

O 40 pleidlais i 19

**PENDERFYNWYD yn sgil COP 27 yn yr Aifft, a datganiad Powys o argyfyngau hinsawdd a natur, mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraethau'r DU a Chymru i roi'r fframweithiau deddfwriaethol a'r darpariaethau angenrheidiol ar waith i alluogi pobl Powys i gadw rhywfaint o'r budd ariannol sy'n deillio o'r adnoddau dŵr ac ynni a gipiwyd ac a gynhyrchwyd ym Mhowys i'w hallforio a'u defnyddio mewn mannau eraill.**

**Yn benodol, mae'r Cyngor hwn yn gofyn am y gallu i godi ardoll ar gwmnïau cynhyrchu/cyflenwi dŵr ac ynni ar ddŵr pibell ac ynni y bwriedir ei allforio, ac nid er budd uniongyrchol neu ddefnydd gan bobl Powys. Ni ddylai'r gyfradd enillion ar gyfer rhannu'r adnoddau hyn fod yn llai na £1 y mega litr ac £1 y megawat yr awr i ddechrau, wedi'i godi gan y gyfradd flynyddol ar gyfer chwyddiant (RPI). Yn gyfnewid am hyn, mae'r Cyngor hwn yn addo y bydd yr arian a godir yn cael ei wario gan Gyngor Powys i ymdrin â'r argyfwng sy'n ein hwynebu gyda'n gilydd yn sgil cynhesu byd-eang, a datblygu gwytnwch i'w wrthsefyll.**

Gadawodd y Cynghorwyr Sir Gareth Morgan a Gareth Ratcliffe y cyfarfod. Cymerodd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham y Gadair.

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - YSGOLION POWYS |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies

"Mae pryderon wedi'u mynegi gan gyd-aelodau'r cyngor, rhieni ac aelodau'r cyhoedd yn dilyn y posibilrwydd fod cwtogi'r wythnos ysgol i 4 diwrnod yn unig wedi ac yn cael ei ystyried gan yr awdurdod fel cam lliniaru yn erbyn costau ynni cynyddol a phwysau cyllidebol.

Nodwn fod Estyn wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol 2021-2022-

· Yn gyffredinol, mae sgiliau dysgwyr wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig. Mae hyn yn arbennig o wir o ran medrau rhifedd a llythrennedd, yn enwedig medrau llefaredd. Effeithiwyd hefyd ar sgiliau cymdeithasol a phersonol lleiafrif o ddysgwyr, yn enwedig y plant ieuengaf a'r rhai sydd wedi'i chael yn anodd setlo'n ôl i arferion addysgol mwy 'normal'.

· Gostyngodd defnydd dysgwyr o Gymraeg llafar yn gyffredinol o ganlyniad i'r pandemig.

· Mae cyfyngiadau wedi cael effaith negyddol ar ddysgu sy'n ymwneud ag elfennau ymarferol, gan gynnwys lleoliadau gwaith, asesiadau ymarferol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a phynciau fel cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.

· Yn gyffredinol, mae'r cynnydd y mae darparwyr yn ei wneud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn amrywio gormod.

· Ar draws pob sector, bu cynnydd nodedig yn y galw am gymorth ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl.

· Mae presenoldeb, mewn ysgolion yn arbennig, yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig ac mae problemau absenoldeb parhaus wedi cynyddu

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bob un ohonom ac mae teuluoedd eisoes yn wynebu pwysau sylweddol.  Nid yw'r math hwn o syniad, hyd yn oed os mai cysyniad yn unig ydyw ar hyn o bryd, yn ddefnyddiol, nid yw wedi'i ystyried yn ddigonol ac o'i weithredu gallai niweidio ein pobl ifanc yn sylweddol a bydd ond yn ychwanegu at bwysau yn y cartref.

Yn wyneb y canfyddiadau negyddol hyn gan Estyn, pwysigrwydd cefnogi ein pobl ifanc, y gydnabyddiaeth bod pwysau cyllidebol / ariannol nid yn unig ar y cyngor a'r angen i sicrhau asesiad effaith llawn a phriodol ar y Gymraeg ac addysg Gymraeg yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw newidiadau -

Mae'r Cyngor yn derbyn pwysigrwydd presenoldeb 5 diwrnod yn ein hysgolion ac na ddylid gofyn i unrhyw ysgol ym Mhowys leihau eu hwythnos ysgol i 4 diwrnod o ganlyniad i gynigion cyllideb y cyngor."

Wrth ymateb i'r cynnig, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Bowys yn Dysgu nad oedd wythnos ysgol 4 diwrnod wedi'i chyflwyno fel cynnig cyllideb. Teimlai aelodau eraill fod y Cabinet wedi bod yn araf i ddiystyru hyn fel opsiwn a oedd wedi arwain at ansicrwydd.

Cynigiwyd cynnig i atal rheolau sefydlog gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh ac fe'i trechwyd o 23 pleidlais i 29 gyda 4 yn ymatal.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais ac o 55 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn derbyn pwysigrwydd presenoldeb 5 diwrnod yn ein hysgolion ac na ddylid gofyn i**

**unrhyw ysgol ym Mhowys leihau eu hwythnos ysgol i 4 diwrnod o ganlyniad i gynigion cyllideb y cyngor.**

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ratcliffe ei fod wedi dychwelyd i'r cyfarfod ran o'r ffordd drwy'r ddadl, ond gan iddo fethu rhan o'r ddadl ei fod yn ymatal.

**Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)**